# *Adeiladu diwylliant entrepreneuraidd*

## Tystiolaeth ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc

**Mehefin 2013**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## Cyflwyniad

1. Mae ColegauCymru yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc yng Nghymru. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi crynodeb o ymateb ColegauCymru i'r materion allweddol sy'n codi yn yr ymchwiliad.

2. Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 19[1] coleg addysg bellach (AB) a sefydliadau AB yng Nghymru.[2] Yn 2011/12, roedd 214,850 o fyfyrwyr unigol yn mynychu coleg ac roedd 229,615 o ymgofrestriadau.[3] Mae hyn yn golygu mai'r colegau yw'r darparwyr mwyaf o addysg entrepreneuriaeth yn y wlad.

3. Mae'r cyflwyniad hwn yn mynd rhagddo drwy ateb y ddwy brif thema yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad a'r wyth cwestiwn penodol a osodir gan y pwyllgor gan roi sylwadau mwy cyffredinol hefyd ynglŷn â maes Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc yng Nghymru.

### Sylwadau cyffredinol

4. Mae ymchwiliad y pwyllgor yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar faes sydd o bwysigrwydd sylfaenol i ddyfodol economaidd Cymru: sut gallwn feithrin ysbryd o fenter ac entrepreneuriaeth yng Nghymru drwy roi i bobl ifanc y sgiliau a'r hyder i gychwyn eu busnes neu'u menter gymdeithasol eu hunain.

5. Nid gorliwio fyddai dweud mai drwy ddatblygu ethos o entrepreneuriaeth – ac intrapreneuriaeth - yn unig y bydd perfformiad economaidd Cymru yn cyd-fynd â'r hyn a geir yn economïau rhanbarthol Ewropeaidd eraill sy'n cymharu. Heb sector llewyrchus o fusnesau cychwynnol a busnesau bach a chanolig, ni fyddwn yn gwireddu ein dyheadau i fod yn genedl ffyniannus. Mae'r diffyg cwmnïau rhyngwladol mawr sydd â swyddogaethau gwasanaethau canolog neu gyfleusterau ymchwil a datblygu wedi'u lleoli yng Nghymru yn golygu ein bod yn dibynnu'n anghyfrannol ar y sector fusnesau cychwynnol a busnesau bach a chanolig i greu swyddi a thwf. Dylem droi'r sefyllfa hon o'n plaid drwy ymdrechu i fod y wlad mwyaf entrepreneuraidd yn y Deyrnas Unedig ac un o'r rhai mwyaf mentrus yn Ewrop. Rhaid i hyn gychwyn ar lefel addysg (ar bob oed), mewn agweddau diwylliannol a chymorth go iawn i rai sy'n cychwyn busnes.

---

1 Mae'r 19 yn cynnwys Coleg Harlech / WEA Gogledd Cymru; WEA De Cymru; Coleg Cymunedol YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Prifysgol De Cymru
2 Yn y papur hwn, caiff y termau 'coleg AB' a 'choleg' eu defnyddio i gyfeirio at golegau AB a sefydliadau AB.
3 *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2011/12 SDR 48/2013,* Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013.

6. Mae gan golegau yng Nghymru gyfrifoldeb uniongyrchol i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd eu dysgwyr i'r perwyl hwn. Rydym yn ymateb i'r her hon, er bod y colegau yn ymwybodol bod mwy y dylid ac y gellid ei wneud.

7. Mae ColegauCymru yn edrych ymlaen at roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar 20fed Mehefin 2013. Byddwn yn hapus i ddarparu tystiolaeth ategol i'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad.

8. Mae'r colegau yn ystyried bod sgiliau entrepreneuraidd yn greiddiol i'r set o sgiliau y bydd ei hangen ar bobl ifanc yn yr 21ain Ganrif. Bydd y sgiliau trosglwyddadwy hyn yn amhrisiadwy nid yn unig wrth gychwyn busnes neu fenter gymdeithasol ond hefyd wrth helpu i yrru arloesi a newid mewn cwmnïau neu sefydliadau presennol – yn y sectorau preifat neu gyhoeddus (intrapreneuriaeth). Mae'r colegau yng Nghymru, er enghraifft, yn eu hystyried eu hunain yn sefydliadau entrepreneuraidd yn y modd y maent yn barhaus yn ceisio mabwysiadau ymagweddau newydd, ac arloesol mewn rhai achosion, o fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol, addysgol ac economaidd y mae eu cymunedau yn eu hwynebu.

## <u>Cylch Gorchwyl.</u> Pa mor effeithiol yw ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc?

## Pa gamau y gellir eu cymryd i wella neu gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?

9. Mae'r ymagwedd gyffredinol sydd gan Lywodraeth Cymru tuag at entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn gadarn ac effeithiol, er y teimlwn y gellir gwneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd. Dylai fframwaith polisi Llywodraeth Cymru fod yn union hynny – fframwaith er mwyn i golegau a darparwyr addysg eraill ymgysylltu'n greadigol â dysgwyr er mwyn meithrin sgiliau entrepreneuraidd trosglwyddadwy. Ni fyddai polisïau mwy caethiwus yn helpu i greu'r lefelau o greadigrwydd ac arbrofi sy'n briodol yn y maes hwn. Felly ni welwn angen mawr am ail-lunio Strategaeth Menter ac Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc yn sylfaenol.

10. Er hynny, gallai'r meysydd sydd i'w gwella gynnwys symleiddio'r prosesau adrodd a monitro o'r canolfannau rhanbarthol yn ôl i'r llywodraeth a chaniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau rhwng gorwel tair blynedd yr arian sy'n cael ei ddyrannu'n rhanbarthol. Mae rhai o'r cydweithwyr yn y colegau yn teimlo nad yw brand 'Syniadau Mawr Cymru' wedi dod i'w lawn dwf hyd yma.

Efallai y bydd angen ailedrych ar y brand bwn yn y dyfodol agos i sicrhau bod y gweithgarwch y maes hwn yn cael eu hysbysebu'n well i ddysgwyr a'r cyhoedd.

## C1. Beth yw profiadau entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?

11. Mae gan entrepreneuriaid ifanc amrywiaeth o brofiadau yng Nghymru ac anodd yw cyffredinoli ynglŷn â'r cyfleoedd a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Mae profiad dysgwyr mewn perthynas ag addysg entrepreneuriaeth yn fwy mesuradwy o ganlyniad i **arolwg *Enterprising Minds* Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn 2012**.[4] Holwyd 1,600 o fyfyrwyr mewn colegau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys 350 o fyfyrwyr AB yng Nghymru. Roedd mwyafrif y myfyrwyr yn cytuno bod eu colegau yn eu hannog i feddwl mwy am fenter, ffigur sydd 16% yn uwch nag yng ngholegau Lloegr. Mae mynegeion eraill yn yr arolwg yn dangos bod colegau yng Nghymru ar y blaen i golegau yn rhannau eraill y DU o ran addysg busnes ac entrepreneuriaeth. Roedd mwyafrif y myfyrwyr coleg a holwyd yng Nghymru yn tystio i brofiad o addysg busnes ac entrepreneuriaeth yn eu coleg. Roedd y ffigurau cyfatebol yn Lloegr yn sylweddol iawn is, ac ymhell o dan 50%.

12. Nid yw hyn yn rheswm dros ein llongyfarch ein hunain na thros fod yn hunanfodlon, gan fod dangosyddion eraill yn yr adroddiad yn dangos nad oedd colegau'n ateb galw a disgwyliadau uchel a theg y myfyrwyr yn gyfan gwbl o ran rhyngweithio'n uniongyrchol â mentrau cymdeithasol a phobl fusnes. Mae hyn yn dangos i ni sut y gallwn wella. Mae lansio gwefan 'Siaradwyr i Ysgolion'[5] (sy'n cwmpasu colegau yn ogystal ag ysgolion, er yr enw) yn ddechrau da yn hyn o beth.

13. Un syniad a allai helpu yn hyn o beth yw cynllun 'gefeillio' entrepreneuriaeth cenedlaethol neu ranbarthol wedi'i noddi gan elusennau cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru. Mewn cynllun o'r fath, gallai entrepreneuriaid gael eu gefeillio â dysgwyr sy'n dangos potensial neu ysgogiad penodol at fenter. Gall yr entrepreneur weithredu fel mentor i'r person ifanc gan ddechrau ffurfio rhwydwaith o entrepreneuriaid a mentoreion a allai hybu ethos o fenter yn lleol neu'n rhanbarthol.

---

[4] Gweler http://www.carnegieuktrust.org.uk/CMSPages/GetFile.aspx?guid=98a49ae1-e164-4ba5-a276-2e9a773666a8
[5] Gweler http://www.speakers4schools.org

**C2. Faint o adnoddau ac arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc? A yw'n ddigonol?**

**C3. Sut mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn ymgorffori materion fel cydraddoldeb, menter gymdeithasol ac amrywiaethau rhanbarthol o ran sgiliau a chyfleoedd hyfforddiant?**

14. Mae'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i'r canolfannau menter rhanbarthol yng Nghymru yn sylweddol ac yn galluogi colegau a darparwyr addysg eraill i ymgymryd â chynlluniau addysg entrepreneuriaeth wedi'u cydlynu. Er i wahanol ranbarthau Cymru fynd ati i gyflenwi addysg entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn rhanbarthol mewn ffyrdd gwahanol, mae'r arfer o gydlynu rhai gweithgareddau addysg entrepreneuriaeth yn rhanbarthol yma i aros.

15. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, gyda'r tebygrwydd o leihad yn yr adnoddau cyhoeddus a roddir i Lywodraeth Cymru, nid yw'n debygol y bydd cynnydd yn yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo i weithgareddau entrepreneuriaeth rhanbarthol. Efallai y caiff defnyddio mwy o arian Ewrop ei ystyried yn opsiwn ar ôl 2014, ond byddai hyn yn ôl pob tebyg yn golygu cynnydd cyfwerth yn y gofynion adrodd a'r baich gweinyddol.

16. Mae'r arfer o gynnwys cydraddoldeb a menter gymdeithasol yn rhan o addysg entrepreneuriaeth wedi'i hen sefydlu – i raddau am fod gan Gymru record dda o sefydlu mentrau cymdeithasol llwyddiannus. Mae cydraddoldeb yn rhan brif ffrwd o'r cynlluniau consortiwm rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a gymeradwywyd ganddi yn 2012. Mae'r colegau yn dechrau cydweithio â sefydliadau fel Canolfan Cydweithredol Cymru a 'Chymunedau Cydweithredol' er mwyn manteisio'n llawn ar eu gallu i feithrin sgiliau menter *gymdeithasol* ymysg dysgwyr.

17. Mae addysg entrepreneuriaeth y colegau o anghenraid yn adlewyrchu cefnwlad fusnes a swyddi y sefydliadau ac felly, er enghraifft, mae gan golegau sydd mewn ardaloedd gwledig fwy o gyswllt â busnesau yn y sector amaethyddol ac ati.

**C4. Pa gyfleoedd a gaiff eu cyflwyno drwy ehangu entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc fel modd o fynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ymysg pobl ifanc?**

18. Mae hwn yn amlwg yn gwestiwn allweddol. Mae sgiliau entrepreneuraidd yn ffordd allweddol i bobl ifanc ddianc rhag diweithdra mewn cyfnod pan rydym yn bell o fod â chyfraddau cyflogaeth llawn. Pobl sydd heb gymwysterau ffurfiol ond sydd â sbardun ac yn benderfynol, yn aml, yw'r entrepreneuriaid gorau ac a all grynhoi'r ysbryd o fenter. Yn ychwanegol at hynny, gall entrepreneuriaeth lwyddiannus mewn cymunedau sydd â lefelau uchel o ddiweithdra arwain at dwf busnesau bach a all, yn ei dro, greu swyddi a gweithgarwch economaidd pellach ymysg y rhai nad oes ganddynt, efallai, yr un doniau entrepreneuraidd.

## C5. I ba raddau y mae entrepreneuriaeth yn ganolog i sefydliadau addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru?

19. Mae entrepreneuriaeth bellach yn rhan bwysig o'r cwricwlwm i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r prif ffyrdd y mae'r colegau yn annog ysbryd o fenter ac yn helpu dysgwyr â sgiliau entrepreneuraidd yn cynnwys:

    a) *Cynnwys dysgu entrepreneuraidd **fel rhan o'r cwricwlwm**, gan gynnwys:*
    - y cwricwlwm craidd, gan gynnwys y prif gymhwyster y mae'r dysgwyr yn astudio tuag ato, a thrwy elfen graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
    - drwy unedau neu gymwysterau penodol yn ymwneud ag entrepreneuriaeth, cyflogadwyedd neu sgiliau allweddol ehangach
    - drwy gymorth tiwtor yn uniongyrchol
    - drwy weithgarwch sydd o fewn rhaglen ddysgu'r myfyrwyr, fel cystadlaethau cyflwyno syniadau, gweithio mewn Cwmni Ymarfer, neu fynychu dosbarthiadau Meistr gydag entrepreneur neu berson busnes.

    b). *Drwy weithgareddau **allgyrsiol** a allai gynnwys*:
    - profiad gwaith mewn amgylchedd busnes neu fasnachol
    - gweithio mewn Cwmni Ymarfer, elusen leol neu fenter gymdeithasol
    - rhoi cynnig ar gystadleuaeth fenter (yn arddull 'Dragon's Den') neu ymarferiadau tebyg
    - profiad o wrando ar siaradwyr ysbrydoledig neu rai sy'n batrwm i eraill, er mwyn ysbrydoli'r myfyrwyr, yn rhan o amgylchedd y coleg neu'r tu allan.

20. Mae'r ddwy elfen hon o brofiad yn cyfuno i greu profiad cyfannol y gobeithiwn y bydd yn rhoi i'r dysgwyr yr hyder a'r agweddau entrepreneuraidd a fydd angen arnynt i lwyddo.

21. Mae'r ffaith bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei adolygu ar gyfer 2015 a bod rhaglenni dysgu yn cael eu cyflwyno ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn rhoi'r cyfle i ni ailwampio addysg entrepreneuriaeth oddi mewn i'r 'cwricwlwm craidd' (neu elfennau craidd y *rhaglen* ddysgu). Mae ColegauCymru yn cyfrannu'n uniongyrchol i grwpiau sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru ac sy'n edrych ar y maes hollbwysig hwn. Dylai sicrhau Craidd i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru sy'n 'addas i'r diben' fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a darparwyr addysg ôl-16 yn y 12-18 mis nesaf.

**C6. Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso ei gweithgareddau entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc? Pa effaith y mae wedi ei chael ar nifer y bobl sy'n dechrau busnes?**

**C7. Pa dystiolaeth sydd ar gael o ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gefnogi ac annog entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc?**

22. Mae system adrodd chwarterol yn ei lle gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl weithgarwch perthnasol yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru a'i fod yn gallu cael ei ddadansoddi yn briodol.

**C8. Pa enghraifft o arferion da ym mae polisi entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc y gellir eu canfod yng Nghymru, yn ehangach o fewn y DU ac yn rhyngwladol?**

23. Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o arferion da ym maes entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc ledled Cymru. Hoffem dynnu sylw at bedair enghraifft yn hytrach na llunio rhestr mwy cynhwysfawr o arferion da y gellid ei llunio o gynnal arolwg mwy llawn o weithgarwch entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc mewn colegau. Sampl fach yn unig yw hon o'r gweithgarwch arloesol sy'n cael ei gynnal mewn colegau ledled Cymru.

24. Mae Coleg Morgannwg yn defnyddio **Cwmnïau Ymarfer** (fel 'Clean Sweep') i annog entrepreneuriaeth ymysg ei ddysgwyr. Caiff model y cwmnïau ymarfer yn ei ddefnyddio mewn mwy na 42 o wledydd a chaiff ei ddefnyddio mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ym mhedwar ban byd i ail-greu elfennau o fusnesau go iawn. Mae'r model yn llwyfan rhagorol i gyflenwi amrywiaeth eang o gymwysterau yn ogystal â meithrin menter ac arloesedd. Mae llawer o fyfyrwyr a fu'n ymwneud â'r cysyniad wedi cael swyddi, gan fod cyflogwyr yn gweld gwerth a manteision y rhaglen.

25. Ffurfiwyd a lansiwyd **Grŵp Gazelle** yn 2011, ac mae'n cynnwys sawl coleg ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro. Mae Grŵp Gazelle, yn ganolog, yn cynhyrchu ac yn rhannu arferion da ym maes entrepreneuriaeth ar bob lefel o weithrediadau'r colegau. Mae Colegau Gazelle yn cydweithio â rhwydwaith o entrepreneuriaid llwyddiannus i ysbrydoli myfyrwyr i gyflawni eu dyheadau o ran mentro.

26. Ym mhrosiect **The Big Pitch**, roedd myfyrwyr o bedwar coleg AB ym Mlaenau'r Cymoedd yn cael bod yn rhan o her fusnes go iawn gan ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd. Sefydlwyd y prosiect gan Goleg Gwent, Coleg Morgannwg, Coleg Merthyr Tudful a Choleg Ystrad Mynach lle cafodd y myfyrwyr y dasg o ddatblygu cynllun marchnata i fusnes go iawn – Canolfan Ddringo Rock UK. Gwahoddwyd tiwtoriaid a myfyrwyr o'r colegau i gymryd rhan mewn prosesau dewis lleol a oedd yn cynnwys heriau go iawn cyn symud ymlaen i'r cam nesaf, sef gweithgaredd Big Pitch ei hun. Dewiswyd timau i gynrychioli pob coleg yn y digwyddiad terfynol. Wedyn ymwelodd y myfyrwyr hyn â'r Ganolfan Ddringo i gwrdd â'r staff a'r rheolwyr cyn mynd ati i greu syniadau ar beth ddylai cynnig y cwmni fod i'r cwsmeriaid; datblygu cynllun marchnata gyda chyllideb o £10,000; llunio datganiad i'r wasg ar gyfer lansiad y cynnig; a rhoi chwarter awr o gyflwyniad ar yr hyn a wnaethant. Nick Hewer o raglen y BBC, *The Apprentice*, oedd yn gweithredu fel Noddwr y Big Pitch.

27. Denwyd 265 o fyfyrwyr i gystadleuaeth The Big Pitch – mwy na dwywaith y nifer a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn 2010 – gan gymryd rhan yn yr heriau dewis cychwynnol, a chofrestrodd 125 i fod yn bresennol yn y rownd derfynol yn adeilad y Pierhead ym mis Rhagfyr 2011. O ganlyniad i'r prosiect, dwedodd 89 y cant o'r myfyrwyr a gymerodd ran yn y digwyddiad terfynol fod eu hyder entrepreneuraidd wedi cynyddu.

28. **Cymryd rhan yn llwyddiannus mewn cystadlaethau entrepreneuriaeth byd-eang**: Mae gan golegau Cymru record dda o lwyddo yng nghystadleuaeth enwog 'Global Entrepreneurship Challenge'. Daeth myfyrwyr Coleg Menai yn drydydd yn y byd yn 2012, wrth i 19 o wledydd gystadlu. Yn rowndiau blaenorol y gystadleuaeth, cafwyd perfformiadau cryf yn fyd-eang gan Goleg Morgannwg.

29. Bydd ColegauCymru yn cydweithio â phartneriaeth dysgu rhanbarthol de-orllewin Cymru i roi i'r pwyllgor enghreifftiau pellach o arferion da o Gymru, o'r DU ac yn rhyngwladol, fel fydd yn cael eu rhannu mewn cynhadledd ddeuddydd ar entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc a gaiff ei chynnal ar 12fed a 13eg Mehefin 2013 yn Stadiwm Liberty, Abertawe.